

# Cylchlythyr Mawrth



Mae mis Mawrth yn fis hyfryd i fod yn Ysgol Llanrhaeadr Ym Mochnant. Mae cennin pedr ym mhobman diolch i'n garddwyr brwdfrydig. Mae nhw bob tro yn rhoi gwen ar fy wyneb. Daw mis Mawrth a'i heisteddfodau ac unwaith eto mae'r disgyblion a'r staff wedi bod yn brysur yn paratoi.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i Mrs Turner a Miss Watkins am baratoi'r disgyblion ar gyfer **Eisteddfod yr Urdd** a gynhalwyd yn Llanfyllin. Roedd yn bleser gwyllo cymaint o ddisgyblion yn cystadlu. Diolch hefyd i'r rhieni a gefnogodd y disgyblion. Llongyfarchiadau arbennig i Seren Williams 1<sup>af</sup> (Unawd); Parti Unsain 2<sup>il</sup>; Côr 2<sup>il</sup>; Parti Berwyn 3<sup>ydd</sup> (Ymgom mamiaith) a Parti Llanrhaeadr 3<sup>ydd</sup> (Ymgom ail iaith). Pob lwc i bawb sydd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod Sir penwythnos yma.

Cynhaliwyd **Eisteddfod Ysgol** y mis hwn ac mae'n un o fy hoff ddigwyddiadau yn y calendr ysgol. Mae pob disgybl yn cymryd rhan ac mae'n wych i'w gweld yn ceisio'u gorau ac i ennill pwyntiau ar gyfer eu fim. Roedd Eisteddfod eleni yn un arbennig unwaith eto. Roedd y staff yn hapus iawn gyda ymdrechion y disgyblion ac roedd yn bleser gwahodd cyn gydweithwyr Mrs Carol Williams a feiriadodd y llefaru a Mrs Eleri Roberts a feiriadodd y gwaith celf. Diolch yn fawr i'r ddwy am ddod ac i Mrs Iona Jones a ddaeth i feiriadu y canu a'r offerynnol. Da iawn i Rhaeadr, a enillodd y gwpan am y 7<sup>fed</sup> tro! Llongyfarchiadau i Morgan Williams am ennill y wobwr teilyngdod. Mae lluniau a chanlyniadau ar gael ar y wefan, ar dudalen 'Eisteddfodau'.

Ar Ddydd Mercher Mawrth 26<sup>ain</sup>, aeth 21 disgybl i gystadlu yn **Eisteddfod Sir Dawnsio yr Urdd**. Roedd y dawnsywyr creadigol yn wych! Yn anffodus ni gawsom wobwr eleni ond rydym yn falch iawn o'r disgyblion. Diolch yn fawr i Natalie Fleming am blethu gwallt y merched ac i'r staff am eu hamser yn ymarfer gyda'r disgyblion.

Ar ddechrau'r mis, cynhaliwyd noson wybodaeth am ddiogelwch ar y we a'r ap newydd **ParentMail**. Diolch i'r naw teulu a ddaeth. Mae ParentMail wedi bod yn lwyddiant mawr yn barod. Mae'n gallu cael ei ddefnyddio gennych chi fel rhieni i dderbyn negeseuon, nodi absenoldeb, gwybodaeth am ddigwyddiadau, ymateb i ffurfleni a trefnu amseroedd noson rhieni. Anwybyddwch yr adran dalu gan ein bod yn defnyddio Parent Pay oherwydd cytundeb Cyngor Sir Powys. Dim ond y prif gysylltiad sydd wedi cael eu rhoi ar y system. Os hoffech unrhyw gysylltiad arall wedi eu hychwanegu fel ail riant neu neiniau a theidiau, cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda. **Ar ôl y Pasg, bydd pob gohebiaeth drwy ParentMail yn unig**, felly gwnewch yn siwr eich bod wedi cofrestru. Mae ParentMail yn gweithio orau drwy'r ap sydd yn gallu cael ei lawrlwytho ar ddyfeisiau Apple ac Android. Cofiwch hefyd mi fydd amseroedd noson rhieni Ebrill 8<sup>fed</sup> ar gael un wythnos cyn y diwrnod. Os oes gennych unrhyw broblemau gyda ParentMail, cysylltwch â'r ysgol.

Yn anffodus, o achos tywydd gwael, mae llawer o rasys **traws gwlad** wedi cael eu gohirio. Er hynny, fe aeth digwyddiad Llanfair Careinion yn ei flaen a fe redodd 13 disgybl yn wych yn eu ras cyntaf o'r flwyddyn. Da iawn i Evan Roberts a oedd yn 2<sup>il</sup>. Yn o gystal, yn nhraws gwlad WASPS yn Trallwm, daeth Evan yn 1af eto. Da iawn i'r holl plant am gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Roeddem yn llwyddiannus iawn hefyd yn **gala nofio WASPS** eleni. Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am orffen yn y 3 uchaf; Evan Roberts 1<sup>af</sup> a Jack Klages 2<sup>il</sup> (Cymysg); Lowri Suckley-Jones 2<sup>il</sup>, Evan Roberts 2<sup>il</sup> a Osian Rigden 3<sup>ydd</sup> (cefn); Jack Klages 1<sup>af</sup>, William Walters 2<sup>il</sup> a Henry Walters 3<sup>ydd</sup> (brog); Evan Roberts 1<sup>af</sup> (pili-pala); Jack Klages 1<sup>af</sup>, Osian Rigden 3<sup>ydd</sup>, Lowri Suckley-Jones 1<sup>af</sup>, Seren Davies 2<sup>il</sup> a Evan Roberts 1<sup>af</sup> (rhydd); Ras gyfnewid Blynnyddoedd 5 a 6 bechgyn 1<sup>af</sup> (Evan, Jack, Osian a Ifan). Pob lwc i'r rhai sydd am fynd ymlaen i'r rownd nesaf ar Fai 1<sup>af</sup>.

Da iawn i'r disgyblion am edrych mor wych, ac i'r rhieni am helpu eu gwisgo ar gyfer **Diwrnod y Llyfr**. Fe gafodd y disgyblion a'r staff hwyl yn gwisgo i fyny. Fe gwblhawyd weithgareddau yn seiliedig ar eu hoff lyfr ac wrth gwrs y 'catwalk' sydd yn hynod o boblogaidd bob blwyddyn! Mae darllen gyda'ch plentyn adref yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae wedi cael ei brofi fod "darllen

yn helaeth ac ar gyfer pleser yn medru meithrin arferion darllen cryf ac yn datblygu sgiliau llythrennedd ar gyfradd mwy na drwy wersi llythrennedd ffurfiol. Mae disgyblion gyda anawsterau darllen yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl nes ymlaen mewn bywyd." (Reading Agency 2018). Dyfyniad diddorol.

Y mis hwn, roeddem hefyd yn dathlu **Comic Relief** neu Diwrnod Trwyn Coch. Penderfynom wisgo'n goch eleni. Codwyd £77, diolch i chi am eich cyfraniad.

Ar Ddydd Mercher 20fed o Fawrth, trafeiliodd disgyblion o flynyddoedd 4,5 a 6 a rhai disgyblion lwcus o flwyddyn 3 i stadiwm Wrecsam i wyllo gêm bêl-droed rhyngwladol rhwng **Cymru a Trinidad a Tobago**. Cawsom noson hwyliog iawn yn gwyllo rhai o chwareuwyr gorau Cymru. Roedd y disgyblion wedi ymddwyn yn wych ac roedd yn bleser eu cymryd yno.

Ar ddechrau'r wythnos cafodd pob disgybl eu haddysgu am negeseuon pwysig am ddiogelwch tân gan gynrychiolydd y **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**. Ceisiwch ofyn i'ch plentyn yr hyn a ddysgon er mwyn cadw eich cartref yn ddiogel.

Fel y gwelwch, mae wedi bod yn fis prysur iawn heb hyd yn oed sôn am yr hyn mae'r disgyblion wedi bod yn gwneud yn y **dosbarth**. Mae dosbarth Miss Watkins a dosbarth Mrs Roberts-Law yn dysgu am y gofod a wedi bod yn ysgrifennu llythyron i Tim Peake, yn ogystal â nifer o brosiectau diddorol yn ymwneud â'r gofod. Yn Ngyfnod Allweddol 2, mae'r disgyblion wedi gwneud gwaith gwych am y Titanic yng ngwersi mathemateg ac Aberfan yng ngwersi iaith. Mae nhw hefyd wedi dechrau prosiect STEM diddorol. Bydd mwy o wybodaeth am eu gwaith yng nghylchlythyr mis Ebrill a bydd cyfle i chi weld gwaith eich plentyn yn y noson rhieni ar Ebrill 8fed.

Cofion,



Mr Jonathan Richards

<b>8/4/19</b>	Noson Rhieni	<b>Hydbysiadau</b>
<b>9/4/19</b>	Urdd TAG Rygbi (Mercher) Cyfarfod CRhA 7yh	<b>Bagiau dillad Dragon</b> Casglu dillad ar Orffennaf 10fed.
<b>11/4/19</b>	Powys Traws Gwlad @ Builth Wells	<b>Clwb chwaraeon (ar ôl Pasg)</b> Dydd Mercher tan 4.30yp
<b>12/4/19</b>	Dim Ysgol CRhA Bingo Pasg 6.30yh	<b>Batris</b> Rydym yn dal i gasglu batris i hel arian ar gyfer yr ysgol.
<b>15 – 26 Ebrill</b>	Gwyliau Pasg	Gadewch i ni wybod eich barn am y cylchlythyr newydd.
<b>1/5/19</b>	WASPS 4 Area Gala	Cysylltwch â ni ar <b>01691 780352</b> neu <b>office@llanrhaeadr.powys.sch.uk</b>
<b>11/5/19</b>	Hwyl Haf CRhA Urdd Traws Gwlad @ Aberystwyth	
<b>17/5/19</b>	Tennis @ Llanfyllin (Pawb CA2)	
<b>23/5/19</b>	Gala Gogledd Powys	
<b>24/5/19</b>	WASPS hoci @ Trallwm	
<b>27 – 31 Mai</b>	Gwyliau Hanner Tymor	